**CYPE(5)-30-19 - Papur i'w nodi 5**

Anfonwyd drwy e-bost at:
Lynne Neagle AC
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

24 Hydref 2019

Annwyl Lynne

## Dirwyn cymwysterau Sylfaen (Ôl-16) a Chenedlaethol (Ôl-16) y Dystysgrif Her Sgiliau i ben

Yr wyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod Cymwysterau Cymru wedi penderfynu, mewn cytundeb â CBAC a Llywodraeth Cymru, y bydd dau o'r pedwar cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau sydd ar gael yn dod i ben y flwyddyn nesaf.

I'ch atgoffa, y pedwar cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau (THS) sydd ar gael ar hyn o bryd yw:

| **Cymhwyster THS** | **Pryd a ble y'u hastudir (yn nodweddiadol)** |
|---|---|
| THS Sylfaen/Cenedlaethol | Ynghyd â TGAU, gan ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 mewn ysgolion. |
| THS Sylfaen (Ôl-16) | Ynghyd â chymwysterau eraill lefel 1 gan ddysgwyr ôl-16 yn y chweched dosbarth ac mewn colegau. |
| THS Cenedlaethol (Ôl-16) | Ynghyd â chymwysterau eraill lefel 2 gan ddysgwyr ôl-16 yn y chweched dosbarth ac mewn colegau. |
| THS Uwch | Ynghyd â Safon Uwch a chymwysterau eraill lefel 3 yn y chweched dosbarth ac mewn colegau. |

Y ddau gymhwyster fydd yn dod i ben yw'r Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaen (Ôl-16) a'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol (Ôl-16).

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion ar gyfer gwella dyluniad y ddau gymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau sy'n weddill. Byddwn yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r cymwysterau hyn yn 2020.


Nid ydym o’r farn y bydd dod â chymwysterau’r Dystysgrif Her Sgiliau ôl-16 i ben yn peryglu anghenion rhesymol dysgwyr. Gall dysgwyr nad ydynt yn cyflawni o leiaf un o gydrannau’r cymhwyster Tystysgrif Her Sylfaen/Cenedlaethol yn yr ysgol, ail-wneud cydrannau o'r cymhwyster hwnnw mewn lleoliadau ôl-16, os dymunant wneud hynny.

Bydd lleihau nifer y gwahanol gymwysterau’r Dystysgrif Her Sgiliau yn ei gwneud yn haws codi ymwybyddiaeth ac egluro manteision y ddau gymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau sy'n weddill a Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol.

Byddwn yn cyfleu'r penderfyniad hwn heddiw drwy flog (ynghlwm) ar ein gwefan. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at randdeiliaid allweddol i'w hysbysu o'r penderfyniad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi (emyr.george@qualificationswales.org).

Yn gywir



Emyr George
**Cyfarwyddwr Polisi a Diwygio Cymwysterau**

**Blog Tystysgrif Her Sgiliau - Hydref 2019**

## Hwb i Sgiliau'r Dyfodol

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried sut i wella cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau (THS) Uwch a Sylfaen/Cenedlaethol. Rydyn ni hefyd wedi bod yn meddwl am yr ystod o gymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau (y cymwysterau sydd wrth wraidd Bagloriaeth Cymru) sydd ar gael.

Rhywbeth nad yw llawer o bobl yn ymwybodol ohono yw bod pedwar cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau gwahanol ar gael ar hyn o bryd.  Gall hyn ei gwneud hi'n anos esbonio beth yw Bagloriaeth Cymru a sut mae'r THS yn cyd-fynd â hi, yn enwedig gan mai dim ond un o nifer o gymwysterau yw'r THS sy'n rhan o ddyfarniad Bagloriaeth Cymru.

Y pedwar cymhwyster THS sydd ar gael ar hyn o bryd yw:

| **Cymhwyster THS** | **Pryd a ble yr astudir (fel arfer)** |
|---|---|
| THS Sylfaen / Cenedlaethol | Ochr yn ochr â TGAU, gan ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11 mewn ysgolion. |
| THS Sylfaen (Ôl-16) | Ochr yn ochr â chymwysterau lefel 1 eraill gan ddysgwyr ôl-16 mewn chweched dosbarth a cholegau. |
| THS Cenedlaethol (Ôl-16) | Ochr yn ochr â chymwysterau lefel 2 eraill gan ddysgwyr ôl-16 mewn chweched dosbarth a cholegau. |
| THS Uwch | Ochr yn ochr â Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 eraill mewn chweched dosbarth a cholegau. |

Mae gwahaniaeth mawr yn nifer y dysgwyr sy'n astudio pob un o'r pedwar cymhwyster hyn. Er enghraifft, mae'r THS Uwch yn cael ei astudio gan oddeutu 12,000 o ddysgwyr bob blwyddyn, sef tua thri chwarter yr holl ddysgwyr sy'n astudio Safon Uwch a chymwysterau lefel 3 eraill mewn colegau a chweched dosbarth. Mae'r THS Sylfaen / Cenedlaethol yn cael ei astudio gan fwy na dwbl y nifer sy'n astudio'r un Uwch, gyda bron pob dysgwr Blwyddyn 11 yng Nghymru yn cwblhau'r cymhwyster mewn ysgolion. Dyna pam ein bod ni'n neilltuo amser ac ymdrech i'w gwneud nhw cystal ag y gallan nhw fod.

Ar y llaw arall, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n astudio'r THS Sylfaen (Ôl-16) a THS Cenedlaethol (Ôl-16).  Efallai bod yna lawer o resymau am hyn, ond gallai hyn fod oherwydd bod dysgwyr bellach yn gallu ail-sefyll cydrannau fersiwn cyfnod allweddol 4 mewn lleoliadau ôl-16.

Rydym wedi penderfynu, gyda chytundeb gan CBAC a Llywodraeth Cymru, y bydd y THS Sylfaen (Ôl-16) a'r THS Cenedlaethol (Ôl-16) yn dod i ben y flwyddyn nesaf (o 31 Awst 2020). Mae hyn yn golygu mai'r dysgwyr a ddechreuodd ar eu cyrsiau ar gyfer y cymwysterau hyn ym mis Medi eleni fydd y garfan olaf i ddilyn y ddau gymhwyster hyn. Rydym wedi ysgrifennu at randdeiliaid allweddol i'w hysbysu o'r penderfyniad hwn.

Bydd lleihau nifer y cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau o bedwar i ddau yn helpu i wneud Bagloriaeth Cymru yn symlach i'w deall a'i hegluro. A bydd hefyd yn caniatáu inni ganolbwyntio ein hymdrechion i gryfhau cynllun y cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/ Sylfaen ac Uwch.

Rydym yn gwneud cynnydd cyson ar ddatblygu syniadau ar gyfer newidiadau posibl. Eleni byddwn yn parhau i weithio ar y cyd ag ymarferwyr ac eraill i fireinio ein ffordd o feddwl. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer newidiadau posibl yn 2020. Fel bob amser, byddwn yn parhau i'ch hysbysu trwy ein blog rheolaidd.